**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

08 Ionawr 2025

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Annwyl Russell

P-06-1480 Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Nico Campbell, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr.

Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor hyd nes cyhoeddi'r Cynllun Iechyd Menywod, a lansiwyd ar 9 Rhagfyr. Cytunodd yr Aelodau hefyd y byddwn yn ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb i'w hystyried wrth graffu ar y cynllun hwnnw. Byddwch yn nodi inni wneud cais tebyg mewn perthynas â deiseb gynharach yn ymwneud â'r menopos, P-06-1444 'Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd', a drafodwyd ar 30 Medi.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Cyngor Meddygol Cyffredinol i ofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'n sicrhau bod hyfforddiant meddygol yn cynnwys y menopos fel agwedd orfodol.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1480 Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.